# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Medi 2020

Amser: 09.30 - 10.05

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Andrew RT Davies AS<br>David J Rowlands AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Clerc)<br>Daniel Collier (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Williams (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Tom Jackson |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Adolygiad o'r Cod Ymddygiad: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ymatebion gan Aelodau a oedd wedi cymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor o'r blaen, ac Aelodau sydd wedi eistedd ar y pwyllgor yn y gorffennol.

2.3 Nododd y pwyllgor y byddai cod a gweithdrefn gwynion ddiwygiedig sy’n seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn cael eu trafod gan y pwyllgor cyn eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori’n ehangach.

## 3 Adolygiad o'r Cod Ymddygiad: Llythyr gan y Comisiynydd Safonau Dros Dro

3.1 Nododd y Pwyllgor lythyr y Comisiynydd dros dro yn tynnu sylw at anghysondeb posibl mewn perthynas ag a ddylai Aelodau ddatgan buddiant wrth gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig.

## 4 Comisiynydd Safonau: Tâl i'r Comisiynydd Safonau Dros Dro

4.1 Trafododd y Pwyllgor gynigion i adolygu’r tâl y mae’r Comisiynydd Safonau Dros Dro yn ei gael.

4.2 Cytunodd y pwyllgor i argymell y dylai tâl y Comisiynydd Dros Dro gael ei ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â chyflog deiliad blaenorol y swydd o 7 Hydref 2020.

4.3 Nododd y pwyllgor bod angen i’r Senedd gymeradwyo unrhyw benderfyniad i amrywio telerau penodiad y Comisiynydd Safonau Dros Dro, o dan Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.